



## Cyfraith Gyfansoddiadol

17 Medi 2021

### Cais am Wybodaeth.

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Awst, pan wnaethoch ofyn:

*I am researching various aspects of constitutional law.*

*I am aware under the standing orders of the Senedd before certain Measures and Bills are introduced the "Queen and or the Princes Consent" may be required.*

- 1. Please advise how many Bills and Measures have required consent in the last five years.*
- 2. Typically many acts of the Westminster Parliament include clauses which state the Act binds the Crown but if the Crown is in breach there is no criminal sanction. Please advise how many Acts of the Senedd over the last 5 years contain similar clauses.*

Fel y gwnaethoch ddweud yn eich cais, mae rheolau a gweithdrefnau'r Senedd wedi'u nodi yn y **Rheolau Sefydlog**, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a chânt eu gorfodi gan y Llywydd, sef yr awdurdod uchaf yn y Senedd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.67, dim ond cyn i'r Senedd drafod a ddylid pasio Bil yng Nghyfnod 4 o broses ddeddfu'r Senedd y mae angen cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw ac nid yw'n ofynnol cyn cyflwyno Bil.

### **Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw**

**26.67** *Os yw Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf*

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

*Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd.*

Mae rhagor o wybodaeth am broses ddeddfu'r Senedd ar gael ar ein gwefan yn <https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/deddfwriaeth/canllaw-i-r-broses-ddeddfu/>.

1. *Please advise how many Bills and Measures have required consent in the last five years.*

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mae pob Bil a gyflwynwyd gerbron y Senedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf i'w weld ar ein gwefan yn <https://senedd.cymru/archif/y-bumed-senedd-2016-2021/deddfwriaeth-y-bumed-senedd-2016-2021/>.

Mae'r rhan fwyaf o'r Biliau a gyflwynwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi mynd ymlaen i fod yn Ddeddfau gan Senedd Cymru neu, cyn i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ddod i rym, Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dim ond Bil Awtistiaeth (Cymru) a'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a gyflwynwyd heb gael eu pasio gan y Senedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac ni chyrrhaeddodd y naill na'r llall o'r Biliau hyn Gyfnod 4 o'r broses ddeddfu.

Caiff y rhan fwyaf o Filiau eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru a, lle bo angen, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw cael cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw ar gyfer y Biliau hynny. O ran y Biliau nad ydynt yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft os cyflwynir Bil gan un o bwyllgorau'r Senedd, bydd Aelod penodol yn gyfrifol am y Bil.

Pan fo angen, bydd y person sy'n gyfrifol am y Bil yn cadarnhau yn nhrefodion y Senedd a gafwyd cydsyniad. Cyhoeddir y wybodaeth hon yng Nghofnod y Trafodion ac mae ar gael drwy chwilio ar ein gwefan: [Chwilio - Senedd Cymru \(senedd.cymru\)](https://senedd.cymru)

Er mwyn mireinio'r canlyniadau chwilio, dewiswch 'Trawsgriadau' ac 'Areithiau' a chwiliwch am dermau priodol. Gallwch hefyd ddewis dyddiadau er mwyn cael canlyniadau ar gyfer cyfnod penodol o amser.

Dyma rai termau y gallai fod yn briodol chwilio amdanynt:

- Cydsyniad Ei Mawrhydi;
- Ei Mawrhydi y Frenhines;
- Dug Cernyw;
- Cydsyniad Dug Cernyw;
- Cydsyniad y Frenhines.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn rhesymol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

2. *Typically many acts of the Westminster Parliament include clauses which state the Act binds the Crown but if the Crown is in breach there is no criminal sanction. Please advise how many Acts of the Senedd over the last 5 years contain similar clauses.*

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Ar ôl i'r Senedd drafod a phasio Bil, ac ar ôl i'r Frenhines roi ei Chydsyniad Brenhinol, daw'r Bil yn 'Ddeddf gan Senedd Cymru'. Mae pob Deddf a gafodd Gydsyniad Brenhinol yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi'i rhestru ar ein gwefan:

<https://senedd.cymru/archif/y-bumed-senedd-2016-2021/deddfwriaeth-y-bumed-senedd-2016-2021/>.

Yr egwyddor gyffredinol, sy'n seiliedig ar athrawiaeth gyfreithiol imiwnedd y Goron, yw na fydd Deddf yn rhwymo'r Goron oni fydd yn gwneud hynny'n benodol neu drwy oblygiad angenrheidiol.

Fel arfer, os bwriedir i Ddeddf gan Senedd Cymru rwymo'r Goron, bydd yn cynnwys adran sy'n darparu ei bod "*yn rhwymo'r Goron*".

Gan fod pob Deddf yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan ac yn

<https://www.legislation.gov.uk/browse/wales>, mae modd chwilio am y Deddfau hynny y bwriedir iddynt rwymo'r Goron.

Gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn rhesymol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

Yn gywir,

Buddug Saer

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth  
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn, cysylltwch â mi. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais rhyddid gwybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu anfonwch lythyr at

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN